



**Comisiwn  
y Gyfraith**  
Diwygio'r gyfraith

---

---

## **Camymddwyn Mewn Swydd Gyhoeddus: Materion Papur 1 – Y Gyfraithbresennol**

---

---

**20 Ionawr 2016**

---

---

# COMISIWN Y GYFRAITH

## CAMYMDDWYN MEWN SWYDD GYHOEDDUS: MATERION PAPUR 1 – Y GYFRAITHBRESENNOL

### CRYNODEB

#### CYFLWYNIAD

- 1.1 Crynodeb yw hwn o *Misconduct in Public Office: Issues Paper 1 – The current law* sydd ar gael ar ein gwefan, ynghyd ag atodiadau cysylltiedig.<sup>1</sup> Mae'r Papur cefndir hwn yn adolygu'r gyfraith bresennol ynghylch y drosedd o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus ac mae'n nodi'r problemau cysylltiedig a allai ddeillio o hynny. Yng ngwanwyn 2016 byddwn yn cyhoeddi'r Ail Bapur a fydd yn amlinellu dewisiadau posibl ar gyfer diwygio'r gyfraith.
- 1.2 Mae'r crynodeb hwn wedi ei rhannu'n bum adran:
  - (1) Cefndir y prosiect.
  - (2) Y gyfraith bresennol.
  - (3) Problemau a ddaeth i'r amlwg gyda'r gyfraith bresennol.
  - (4) Mannau o orgyffwrdd gyda dulliau eraill o atebolrwydd.
  - (5) Ymddygiad a erlynir fel camymddwyn mewn swydd gyhoeddus.

#### CEFNDIR Y PROSIECT

- 1.3 Cynhwyswyd adolygiad o'r drosedd o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus yn ein hunfed rhaglen ar ddeg o ddiwygio'r gyfraith.<sup>2</sup> Ein hamcanion wrth ddiwygio yw penderfynu a ddylid diddymu, cadw, ailddatgan neu ddiwygio'r drosedd bresennol o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus; a dilyn pa bynnag gynllun diwygio y penderfynir arno.
- 1.4 Ers cychwyn gwaith ar y prosiect rydym wedi darganfod nifer o broblemau gyda'r gyfraith bresennol. Mae nifer o enghreifftiau amlwg iawn wedi bod yn ddiweddar o honiadau, ymchwiliadau ac erlyniadau o'r drosedd ac apeliadau cysylltiedig â'r dehongliad ohoni. Mae'r rhain wedi tynnu sylw neilltuol at y problemau sy'n gysylltiedig â'r drosedd.
- 1.5 Un enghraifft yw'r gyfres o erlyniadau, rhwng 2014 a 2015, o bobl o dan amheuaeth a gafodd eu harestio fel rhan o ymchwiliad yr Heddlu

<sup>1</sup> <http://www.lawcom.gov.uk/project/misconduct-in-public-office/>.

<sup>2</sup> *Eleventh Programme* (2011) Comisiwn y Gyfraith Rhif 330.

Metropolitanaid, *Operation Elveden*. Roedd yr ymchwiliad yn ymwneud â thaliadau yr honnwyd iddynt gael eu gwneud gan newyddiadurwyr i swyddogion cyhoeddus am wybodaeth i'w defnyddio mewn straeon newyddion. Arweiniodd yr erlyniadau hyn at nifer o achosion llys a gafodd sylw amlwg ac at ddyfarniad y Llys Apêl yn achos *Chapman* ym mis Mawrth 2015.<sup>3</sup> Arweiniodd y penderfyniad yn achos *Chapman* adolygiad gan Wasanaeth Erlyn y Goron ("CPS") o'r achosion hynny a arweiniodd at nifer o erlyniadau yn erbyn newyddiadurwyr yn cael eu gollwng.<sup>4</sup> Mae tua 30 o swyddogion wedi cael eu collfarnu o ganlyniad i gyrch Operation Elveden.

- 1.6 Mae ystadegau'n dangos cynnydd sylweddol yn y nifer o erlyniadau am y drosedd yn y deng mlynedd ddiwethaf, a bod cyfran sylweddol o gollfarnau yn sgil yr erlyniadau hyn yn arwain at apeliadau.<sup>5</sup>
- 1.7 Dengys yr ystadegau hefyd leihad sylweddol yn y gyfran sy'n arwain at gollfarnau yn y blynyddoedd diwethaf.<sup>6</sup> Gall fod llawer o resymau pam fod mwy o bobl yn cael eu cyhuddo o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus tra bod llai o'r cyhuddiadau hyn yn arwain at gollfarn. Un rheswm posibl yw bod diffyg diffiniad clir o'r drosedd yn ei gwneud hi'n anodd ei gweithredu'n ymarferol.

### **Hanes y drosedd a galwadau am ddiwygio**

- 1.8 Mae'r drosedd yn un eithaf hen.<sup>7</sup> Gwnaed y datganiad mwyaf adnabyddus am y drosedd yn 1783, gan y Prif Ustus Mansfield yn achos *Bembridge*.<sup>8</sup> Prin y cafodd y drosedd ei defnyddio wedyn rhwng diwedd y 18fed ganrif a dechrau'r 21ain ganrif, ac eithrio ambell i achos a gafodd sylw amlwg. Mae'n debyg nad yw'n fawr o syndod, felly, fod llawer o bobl, gan gynnwys barnwyr a chyfreithwyr, yn ansicr o ddiffiniad y drosedd.
- 1.9 Mae galwadau niferus am ddiwygio wedi dod gan academyddion, barnwyr, cyfreithwyr, gweinidogion y Llywodraeth a'r cyfryngau. Datganodd y Llys Apêl yn ddiweddar:

Mae hwn yn ddiarnheul yn faes anodd o'r gyfraith droseddol. Caiff trosedd cyfraith gwlad hynafol ei defnyddio mewn amgylchiadau lle nad yw prin wedi cael ei gweithredu o'r blaen.<sup>9</sup>

- 1.10 Mae ymgeisiau i ddiwygio'r drosedd yn mynd yn ôl i'r 1960au<sup>10</sup> o leiaf. Yn fwy diweddar cafodd y drosedd ei hystyried gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. Yn 1997 cyhoeddodd y Pwyllgor hwn bapur ymgynghori a oedd yn

<sup>3</sup> *Chapman* [2015] EWCA Crim 539, [2015] 2 Cr App R 10.

<sup>4</sup>[http://www.cps.gov.uk/news/latest\\_news/crown\\_prosecution\\_service\\_re\\_review\\_of\\_operation\\_elveden/](http://www.cps.gov.uk/news/latest_news/crown_prosecution_service_re_review_of_operation_elveden/) (gwelwyd ddiwethaf 18 Rhagfyr 2015).

<sup>5</sup> Gweler Atodiad D am drafodaeth bellach.

<sup>6</sup> Ar sail ystadegau a gafwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder am y cyfnod 2005 i 2014.

<sup>7</sup> Gweler Atodiad A am ddadansoddiad pellach o ddatblygiad hanesyddol y drosedd.

<sup>8</sup> *Bembridge* (1783) 3 Doug KB 327, 99 ER 679.

<sup>9</sup> Yr Arglwydd Thomas CJ yn *Chapman* [2015] EWCA Crim 539, [2015] 2 Cr App R 10.

<sup>10</sup> Gweler Atodiad E am ddadansoddiad pellach o gynigion blaenorol i ddiwygio'r drosedd.

argymhell creu trosedd statudol o gamddefnyddio swydd gyhoeddus.<sup>11</sup> Fe wnaeth y Cydbwyllgor Braint Seneddol gefnogi'r argymhelliad hwn,<sup>12</sup> ond ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.<sup>13</sup>

- 1.11 Mae pryderon ynghylch cyflwr y gyfraith bresennol a'r angen i'w diwygio ar frys wedi cael eu cadarnhau yn y trafodaethau rhagarweiniol a gawsom gyda rhai o'r bobl a sefydliadau sydd â gwybodaeth o'r drosedd a'r ffordd y'i gweithreidir. Mae'r rhain yn cynnwys adrannau'r Llywodraeth, erlynwyr, academyddion, bargyfreithwyr gydag arbenigedd mewn amddiffyn ac erlyn y drosedd, cyrff annibynnol a chynrychiolwyr cyfreithiol y wasg.

## **Y GYFRAITH BRESENNOL**

- 1.12 Trosedd cyfraith gwlad yw camymddwyn mewn swydd gyhoeddus: ni chaiff ei diffinio mewn unrhyw statud. Mae iddi uchafswm dedfryd o garchar am oes.
- 1.13 Mae'r gyfraith bresennol wedi ei datblygu mewn modd tameidiog gan y llysoedd dros lawer blwyddyn. Mae'n anodd gweld i sicrwydd pendant lle mae ffiniau'r drosedd a phob un o'i helfennau. Yr achos modern mwyaf blaenllaw yw *Attorney General's Reference (No 3 of 2003) (Cyfarwyddyd y Twrnai Cyffredinol)*,<sup>14</sup> lle datganodd y Llys Apêl mai elfennau'r drosedd o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus yw:

(1) swyddog cyhoeddus yn gweithredu yn y fath fodd; (2) yn fwriadol esgeuluso cyflawni ei ddyletswydd a/neu yn fwriadol gamymddwyn ei hun; (3) i'r fath raddau fel ei fod yn camddefnyddio ymddiriedaeth y cyhoedd yn neilad y swydd; (4) heb esgus neu gyfiawnhad rhesymol.<sup>15</sup>

- 1.14 Crynhown isod ein casgliadau ynghylch sut y diffinnir pob un o'r elfennau hyn, ond golyga amwyseddau'r gyfraith bresennol nad ydym wedi gallu cyrraedd casgliadau cadarn ar rai agweddau ohoni.

### **(1) Swyddog cyhoeddus yn gweithredu yn y fath fodd**

- 1.15 Er nad yw *Cyfarwyddyd y Twrnai Cyffredinol* yn gwahanu'r cysyniadau "swydd gyhoeddus" a "gweithredu yn y fath fodd" canfuom ei bod yn ddefnyddiol eu hystyried hwy ar wahân.

<sup>11</sup> CSPL, Report of the CSPL on Standards in Local Government in England, Scotland and Wales (1997) Cmnd 3702-1, gyda'r atodiad CSPL, *Misuse of public office: a consultation paper* (1997).

<sup>12</sup> Adroddiad y Cydbwyllgor ar Frait Seneddol (1998-99) Tŷ'r Cyffredin 214-I/Tŷ'r Arglwyddi 43-I.

<sup>13</sup> Cafodd y cwestiwn o ddiwygio'r drosedd camymddwyn ei sugno i mewn i adolygiad ehangach gan y llywodraeth o'r gyfraith ar lygredd rhwng 1998 a 2003.

<sup>14</sup> [2004] EWCA Crim 868, [2005] QB 73 ar [61].

<sup>15</sup> Deil hyn i fod y datganiad egluraf o elfennau'r drosedd, er bod achosion eraill mwy diweddar wedi mireinio agweddau ohoni. Yn benodol, gweler *W* [2010] EWCA Crim 372, [2010] QB 787; *Chapman* [2015] EWCA Crim 539, [2015] 2 Cr App R 10; *Cosford* [2013] EWCA Crim 466, [2014] QB 81; a *Mitchell* [2014] EWCA Crim 318, [2014] 2 Cr App R 2.

### **Swydd gyhoeddus**

1.16 Caiff “swydd gyhoeddus”, i ddibenion y drosedd, ei diffinio’n bennaf gan y swyddogaethau y mae person o dan ddyletswydd i’w cyflawni ac nid gan statws y swydd a ddelir. Canfuom fod y term “swydd gyhoeddus” yn cael ei ddeall yn helaeth. Yn benodol, nid yw’n angenrheidiol:

- (1) diffinio “swydd” mewn unrhyw ystyr dechnegol na dangos unrhyw fath o safle parhaol;
- (2) i’r swydd fod yn destun rheolau penodol o ran penodi, swydd am gyflog, swydd ar gontract neu am dâl;
- (3) dangos bod swydd gyhoeddus yn uniongyrchol gysylltiedig, trwy benodiad, cyflogaeth neu gontract, yn nhermau statws, i’r Llywodraeth na’r wladwriaeth.

1.17 I gymhwyso fel deiliad swydd gyhoeddus, rhaid i’w safle ef neu hi gynnwys cyflawni dyletswydd yn gysylltiedig â swyddogaeth y wladwriaeth yn rhan o hynny. Mae’r gyfraith yn aneglur ynghylch beth sy’n swyddogaeth y wladwriaeth. Un ystyriaeth berthnasol i’r llys yw a yw deiliad y swydd yn gweithredu pwerau cymhellol (rydym yn dehongli hyn fel amod digonol ond nid un angenrheidiol).<sup>16</sup>

1.18 Mae agwedd bwysig arall i’r elfen hon o’r drosedd. Rhaid i ddyletswydd yr unigolyn sy’n gysylltiedig â swyddogaethau’r wladwriaeth fod yn un y mae gan y cyhoedd fudd sylweddol ynddi. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i fuddiannau’r rheini y gallai methiant difrifol wrth gyflawni’r swyddogaethau hyn effeithio’n uniongyrchol arnynt.

1.19 Er mwyn hwylustod, cyfeiriwn at y mathau o ddyletswydd sy’n gysylltiedig â swyddogaethau’r wladwriaeth a sydd â’r graddau perthnasol o fudd cyhoeddus i wneud yr unigolyn yn ddeiliad swydd gyhoeddus fel “dyletswyddau penderfynodol”. Mae hyn oherwydd eu bod yn penderfynu a yw rhywun mewn swydd gyhoeddus.

### **Gweithredu yn y fath fodd**

1.20 Rhaid i ddeiliad swydd gyhoeddus fod yn “gweithredu yn y fath fodd” pan fo ef neu hi’n cyflawni’r camymddygiad honedig. Mae arwyddocâd ymarferol o hyn yn aneglur.

#### **(2) Bwriadol esgeuluso cyflawni ei ddyletswydd a/neu yn fwriadol gamymddwyn ei hun**

1.21 Unwaith eto, er nad yw *Cyfarwyddyd y Twrnai Cyffredinol* yn gwahanu’r cysyniadau “bwriadol” ac “esgeulstod neu gamymddwyn” rydym yn eu harchwilio ar wahân.

<sup>16</sup> Enghraifft o bŵer cymhellol yw pŵer yr heddlu i arestio o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, a 28.

### **Torri dyletswydd (esgeulustod neu gamymddwyn)**

- 1.22 Os yw'r torri dyletswydd, boed hynny drwy weithred neu drwy hepgor, yn dor dyletswydd benderfynodol yna bydd y torri yn ddigonol *yn arferol* i olygu camymddwyn mewn swydd gyhoeddus, cyn belled â'i fod yn ddigon difrifol. Os yw'r ddyletswydd a dorrir yn ddyletswydd amhenderfynodol sy'n ddyledus gan y person yna *gallai* mewn rhai amgylchiadau fod yn ddigonol ar gyfer y drosedd camymddwyn mewn swydd gyhoeddus cyn belled â'i bod yn ddigon difrifol.

### **Bwriadol**

- 1.23 Y cyflwr meddwl (neu'r "elfen o fai") sy'n ofynnol gan y drosedd yw bod y diffynnydd wedi gweithredu'n "fwriadol". Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r erlyniad brofi'r canlynol am y diffynnydd:

- (1) ei fod yn ymwybodol o'r amgylchiadau a oedd yn gwneud ei safle ef neu hi yn swydd gyhoeddus; a'i
- (2) fod yn sylweddoli y gallai sefyllfa fod wedi codi yn galw am i un o ddyletswyddau'r swydd honno gael eu cyflawni; a'i
- (3) fod yn ymwneud â'r ymddygiad a oedd yn torri'r ddyletswydd o dan sylw; a
- (4) bod y penderfyniad i wneud hynny yn afresymol yng ngoleuni'r ffeithiau sy'n hysbys i'r diffynnydd.

### **(3) Camddefnyddio ymddiriedaeth y cyhoedd**

- 1.24 Rhaid i'r torri dyletswydd yn fwriadol fod yn ddigon difrifol i olygu camddefnyddio ymddiriedaeth y cyhoedd. Hynny yw, rhaid i'r torri dyletswydd gyrraedd trothwy o ddifrifoldeb fel bod i'r camymddygiad yr effaith o niweidio budd y cyhoedd. Galwn hyn y "prawf difrifoldeb".

- 1.25 I fod yn euog o'r drosedd rhaid profi hefyd fod deiliad y swydd gyhoeddus yn ymwybodol o'r amgylchiadau oedd yn bodoli a oedd yn gwneud ei dor dyletswydd ef neu hi yn ddifrifol. Nid yw, fodd bynnag, yn ofynnol ei fod ef neu hi wedi dod i'r casgliad eu hunain fod y torri dyletswydd yn ddifrifol.<sup>17</sup>

### **(4) Esgus neu gyfiawnhad rhesymol**

- 1.26 Agwedd olaf y drosedd yw bod yn rhaid iddi gael ei chyflawni mewn amgylchiadau lle nad oedd gan y diffynnydd unrhyw gyfiawnhad nac esgus resymol am ei ymddygiad ef neu hi. Mae'n aneglur a yw'r term "esgus neu gyfiawnhad rhesymol" yn ffurfio amddiffyniad a saif ar ei ben ei hun yn erbyn cyhuddiad o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus (yn hytrach na chaniatáu ar gyfer gwadu elfen arall o'r drosedd).

## **PROBLEMAU A DDAETH I'R AMLWG GYDA'R GYFRAITH BRESENNOL**

- 1.27 Rydym wedi adnabod problemau niferus gyda ffurf bresennol y drosedd dan gyfraith gwlad sydd wedi'i gwneud hi'n anodd ei defnyddio.

<sup>17</sup> *Chapman* [2015] EWCA Crim 539, [2015] 2 Cr App R 10 ar [48] a [49].

### **Diffyg diffiniad clir o “swydd gyhoeddus” a “gweithredu yn y fath fodd”**

- 1.28 Yr elfen hon o'r drosedd yw'r un fwyaf anodd ei deall. Gan mai hon yw un o elfennau craidd y drosedd mae'n fethiant sylfaenol.
- 1.29 Dengys ein hymchwil fod yr anawsterau penodol canlynol, ymysg eraill, wrth ddiffinio swydd gyhoeddus:
- (1) Mae anawsterau mewn diffinio swydd gyhoeddus yn ôl statws, (i'r graddau lle mae ystyriaethau o statws yn dal yn berthnasol), a hefyd wrth ddiffinio swydd gyhoeddus yn ôl swyddogaeth.
  - (2) Nid oes unrhyw ddiffiniad o beth sy'n gwneud rhywbeth yn gyfrifoldeb llywodraethol neu'n un o swyddogaethau'r wladwriaeth (y tu hwnt i ddiddordebau'r rhai sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan fethiant difrifol wrth wneud y dyletswyddau hynny).
  - (3) Nid oes unrhyw ddiffiniad o'r mathau o ddyletswyddau y mae gan y cyhoedd fudd sylweddol ynddynt.
  - (4) Mae'n ddadleuol a oes unrhyw arwyddocâd ymarferol i'r gofyniad fod swyddog cyhoeddus yn “gweithredu yn y fath fodd” oddi fewn i'r drosedd o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus, heblaw i wahardd yr achosion lle mae swyddog yn gweithredu mewn capasiti hollol breifat.
- 1.30 Sylweddolwn fod llawer o erlyniadau am gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus yn arwain at heriau cyfreithiol mewn achos llys<sup>18</sup> ac ar apêl<sup>19</sup> ynghylch a yw'r diffynnydd mewn swydd gyhoeddus. Mewn o leiaf un achos dadleuwyd bod yr ansicrwydd yn gwneud y drosedd mor amwys fel ei fod yn mynd yn groes i erthygl 7 o Gonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop.<sup>20</sup>
- 1.31 Un o'r prif anawsterau wrth benderfynu pwy sydd mewn swydd gyhoeddus a phwy sydd ddim yw'r pylu sydd wedi digwydd yn y gwahaniaeth rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae'r broblem hon wedi cynyddu dros y degawdau diwethaf wrth i swyddogaethau a gyflawnid yn draddodiadol gan y wladwriaeth trwy'r llywodraeth neu gyrff cyhoeddus gael eu cyflawni'n aml bellach ar ran y wladwriaeth gan gyrff a sefydliadau hyd braich neu rai preifat. Un enghraifft yw'r preifateiddio rhannol o'r system garchardai. Yn ogystal, mae llawer o gyrff cyhoeddus yn cyflawni swyddogaethau eraill yn ogystal â'r cyfrifoldebau i'r wladwriaeth y cawsant eu sefydlu i'w diwallu. Gall un o ymddireolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, er enghraifft, ddarparu gwasanaethau gofal iechyd preifat yn ogystal â darparu gofal iechyd cyhoeddus.

<sup>18</sup> Er enghraifft, yr achos diweddar nas adroddwyd o *Ball* (8 Medi 2015) (nis adroddwyd, y Llys Troseddol Canolog) lle canfu Wilkie J fod cyn-escob Caerloyw wedi bod yn ddeilad swydd gyhoeddus.

<sup>19</sup> *Cosford* [2013] EWCA Crim 466, [2014] QB 81 (yn ymwneud â nyrsys yn gweithio mewn carchar); *Mitchell* [2014] EWCA Crim 318, [2014] 2 Cr App R 2 (yn ymwneud â pharafeddyg).

<sup>20</sup> *Mitchell* [2014] EWCA Crim 318, [2014] 2 Cr App R 2 at [21], er na wnaeth y Llys Apêl ystyried y pwynt hwn yn fanwl gan i'r apelydd lwyddo ar sail gyntaf ei apêl – nad oedd parafeddyg yn swyddog cyhoeddus. Mae Erthygl 7 yn gwahardd creu cyfraith ôl-weithgredol: gweler Atodiad C am drafodaeth bellach.

- 1.32 Deuwn i'r casgliad fod yr elfen o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus a ddisgrifir yng *Nghyfarwyddyd y Twrnai Cyffredinol*, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r unigolyn fod yn "swyddog cyhoeddus sy'n gweithredu yn y fath fodd", wedi'i ddiffinio'n wael a'i fod yn amwys. Yn ein barn ni, mae erlyniadau aflwyddiannus a/neu anhaeddiannol, apeliadau a heriau posibl o dan Gonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop yn debygol o barhau oni chaiff y diffiniad o swydd gyhoeddus ei egluro.

### **Diffyg eglurder o ran yr elfen o fai sy'n ofynnol**

- 1.33 Yr elfen o "fai" mewn camymddwyn mewn swydd gyhoeddus yw bod y camymddwyn yn "fwriadol". Mae i'r term yr un ystyr â dihidrwydd goddrychol<sup>21</sup> a eglurir yng *Nghyfarwyddyd y Twrnai Cyffredinol*.<sup>22</sup>
- 1.34 Ymddangosai'r Llys Apêl yng *Nghyfarwyddyd y Twrnai Cyffredinol* fel petai'n creu elfen sengl o fai ar gyfer pob math o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus. Fodd bynnag, mae anghysondeb ymddangosiadol yn y gyfraith achosion cynharach p'run a sefydlwyd camymddygiad gan unrhyw gamddefnydd bwriadol o ymddiriedaeth, neu a yw cymhelliad amhriodol hefyd yn ofynnol. Mae rhai achosion yn dal fod unrhyw dor-dyletswydd sy'n fwriadol ac nid yn ddiofal yn unig yn ddigonol;<sup>23</sup> mae eraill yn cyfeirio at fod cymhelliad anonest, gormesol, llwgr neu bleidgar hefyd yn ofynnol.<sup>24</sup>
- 1.35 Os oedd y llys yng *Nghyfarwyddyd y Twrnai Cyffredinol* yn bwriadu gweithredu gofyniad sengl o fai i bob math o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus, roedd o leiaf un achos diweddarach na wnaeth ddilyn y dull hwnnw. Daliodd y Llys Apêl yn achos *W* y bydd yn rhaid profi bwriad ac anonestrwydd fel elfennau ar wahân, lle byddai'r honiad o gamymddwyn yn golygu'n ogystal drosedd seiliedig ar anonestrwydd (megis lladrad neu dwyll).<sup>25</sup> Mae'r penderfyniad hwnnw wedi cael ei feirniadu'n helaeth.<sup>26</sup>
- 1.36 Mae anawsterau mewn egwyddor ac ymarferoldeb mewn gwneud gofyniadau bai ychwanegol yn ofynnol ar gyfer gwahanol fathau o'r un drosedd, gan ddibynnu ar ffeithiau achosion unigol.

### **Diffyg eglurder ynghylch a yw'r drosedd yn gofyn am dorri math penodol o ddyletswydd**

- 1.37 Mae'r drosedd o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus yn ymwneud yn bennaf â thorri dyletswydd boed trwy weithred neu drwy hepgor. Y cwestiwn sy'n codi yw

<sup>21</sup> Fel y diffiniwyd yn *G* [2004] 1 AC 1034, [2003] Tŷ'r Arglwyddi 50.

<sup>22</sup> *AGs Reference (No 3 of 2003)* [2004] EWCA Crim 868 ar [27] i [30].

<sup>23</sup> *Sainsbury* (1791) 4 Term Rep 451; *Cope* (1827) 6 A & E 226; *Pinney* (1832) 3 B & Ad 947; *Hall* [1891] 1 QB 747.

<sup>24</sup> *Young and Pitts* (1758) 3 Burr 556, 97 ER 447; *Williams and Davis* (1762) 3 Burr 1317, 97 ER 851; *Baylis* (1762) 3 Burr 1318, 97 ER 851; *Davie* (1781) 2 Dougl 588, 99 ER 371; *Borron* (1820) 3 B & Ald 432, 106 ER 721; *ex parte Fentiman* (1834) 3 A & E 127, 111 ER 49.

<sup>25</sup> *W* [2010] EWCA Crim 372, [2010] QB 787. Roedd *W* yn ymwneud â swyddog heddlu a oedd wedi cael ei gyhuddo o gamddefnyddio cerdyn credyd a ddarparwyd iddo gan yr heddlu i'r diben o dalu costau cysylltiedig â gwaith.

<sup>26</sup> J Spencer, "Police behaving badly, the abuse of misconduct office" (2010) 69(3) *Criminal Law Journal* 423.



a yw'r drosedd yn berthnasol dim ond mewn achosion lle mae'r ddyletswydd a dorwyd yn ddyletswydd benderfynodol; neu a all torri *unrhyw* ddyletswydd y mae deiliad y swydd yn destun iddi fod yn ddigonol.

- 1.38 Awgryma dadansoddiad o gyfraith achosion fod torri dyletswydd benderfynodol yn ddigonol fel arfer ar gyfer yr elfen hon.<sup>27</sup>

**Enghraifft 1(a)** Mae gan berson awdurdodedig i ddibenion cofrestru priodasau (D) ddyletswydd benderfynodol i gyflawni ei swyddogaeth cofrestru priodasau, ac i wneud hynny'n briodol. Ar sail safbwyntiau hiliol, mae D yn methu â chofrestru priodas yn gywir rhwng dinesydd Prydeinig a rhywun nad yw'n ddinesydd Prydeinig. Y canlyniad yw nad yw'r un nad yw'n ddinesydd Prydeinig yn cael yr hawl i aros yn y Deyrnas Unedig a chaiff ei alltudio.

Mae'r ddyletswydd y mae D yn ei thorri yn ddyletswydd sy'n penderfynu bod D yn ddeiliad swydd gyhoeddus. Yn y sefyllfa hon gallai D, yn amodol ar y prawf difrifoldeb a'r elfen feddyliol, gael ei erlyn am gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus.<sup>28</sup>

- 1.39 Mae'r gyfraith, fodd bynnag, yn llai eglur fyth ynghylch pa fathau, os oes rhai o gwbl, o dorri dyletswyddau amhenderfynodol a fydd yn ddigonol. Mae'r rhai o'r achosion yn awgrymu y gallu torri *unrhyw* ddyletswydd fod yn gyfystyr â chamymddwyn mewn swydd gyhoeddus, o leiaf i ddeiliaid rhai swyddi.

**Enghraifft 1(b)** Mae D, y person awdurdodedig ar gyfer cofrestru priodasau, hefyd yn gyflogwr ac mae ganddo ddyletswydd i dalu'r gofalwr a gyflogir gan y lleoliad awdurdodedig ar gyfer y briodas. Mae D yn methu â gwneud hynny.

Yma mae D wedi torri dyletswydd sy'n ddyledus arno i weithiwr cyflogedig D, ond nid yw'n ddyletswydd sy'n penderfynu bod D mewn swydd gyhoeddus. Mae'n aneglur a fyddai hon yn drosedd o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus.

- 1.40 Un farn a fynegwyd gan rai rhanddeiliaid yw na ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus yn gyffredinol ddim ond cael eu dal yn droseddol atebol am dorri eu dyletswyddau penderfynodol, ond y dylai atebolrwydd deiliaid swyddi cyhoeddus penodol ymestyn ymhellach. Er enghraifft, mae rhai rhanddeiliaid wedi mynegi'r farn fod aelodau o'r heddlu neu'r gwasanaeth carcharchdai yn fathau o ddeiliaid swyddi lle gallu tor-dyletswydd difrifol o *unrhyw* un o'u dyletswyddau olygu camymddwyn mewn swydd gyhoeddus, boed yn ymwneud â swyddogaethau'r unigolyn i'r wladwriaeth neu beidio.

<sup>27</sup> Gan gynnwys *Dytham* [1979] QB 722, [1979] 3 WLR 467; *Bowden* [1996] 1 WLR 98, [1995] 4 All ER 505; *Speechley* [2004] EWCA Crim 3067, [2005] 2 Cr App R (S) 15; *W* [2010] EWCA Crim 372, [2010] QB 787; *King* [2013] EWCA Crim 1599, [2014] 1 Cr App R (S) 73.

<sup>28</sup> Er hynny, mae troseddau penodol sy'n ymwneud â'r methiant i gofrestru priodas o dan Ddeddf Priodasau 1949, adrannau 76(1) a (2).

## Diffyg eglurder ynghylch beth all ffurfio “camddefnydd o ymddiriedaeth y cyhoedd”

- 1.41 Mae'r “prawf difrifoldeb” yn ei gwneud yn ofynnol fod yn rhaid i'r esgeulustod neu gamymddygiad fod “i'r graddau ei fod yn gyfystyr â chamddefnyddio ymddiriedaeth y cyhoedd yn neiliad y swydd”. Mewn geiriau eraill, rhaid i'r tor-dyletswydd fod yn agored i erlyniad troseddol, ac nid cyfraith sifil neu weithdrefnau disgyblu yn unig.<sup>29</sup>
- 1.42 Mae nifer o ffactorau a all gynorthwyo wrth benderfynu a yw'r camymddygiad dan sylw yn ddigon difrifol i gyfiawnhau defnyddio'r gyfraith droseddol.
- (1) Canlyniadau tebygol y tor-dyletswydd. Nid yw'r drosedd ei hun yn cynnwys unrhyw ofyniad fod yr erlyniad yn profi unrhyw ganlyniad penodol; mae'r drosedd yn ymwneud ag *ymddygiad*. Fodd bynnag, mae bodolaeth *risg* o ganlyniadau niweidiol yn berthnasol wrth benderfynu a yw'r achos o dor-dyletswydd yn un difrifol.<sup>30</sup>
  - (2) Gall bodolaeth cymhelliad amhriodol (er enghraifft; bwriad i dwyllo, anonestrwydd, gormes neu lygredd) hefyd fod yn berthnasol. Mae rhai achosion cynharach yn cyfeirio at y ffaith fod angen cymhelliad anonest, gormesol, llwgr neu bleidgar fel elfen ar wahân o'r drosedd,<sup>31</sup> ond nid yw'r achosion diweddarach yn cynnwys unrhyw ofyniad o'r fath.<sup>32</sup> Gall cymhelliad fod yn rhywbeth nad yw'n ddim mwy nag un ystyriaeth i roi sylw iddo wrth asesu “difrifoldeb”.<sup>33</sup>
  - (3) Gall amgylchiadau eraill hefyd arwain at i'r tor-dyletswydd gael ei weld fel rhywbeth mwy difrifol, megis tor dyletswydd gan uwch-swyddog cyhoeddus yn hytrach na'r un tor dyletswydd gan swyddog ar lefel is.
- 1.43 Ailadroddodd yr Arglwydd Brif Ustus yn ddiweddar, yn achos *Chapman*, mai'r sefyllfa gyfreithiol yw bod “camddefnyddio ymddiriedaeth y cyhoedd” yn un sydd â'r effaith o niweidio budd y cyhoedd.<sup>34</sup> Fodd bynnag, pery'n aneglur pa rôl, os o gwbl, y bydd ffactorau fel canlyniadau ac amhriodoldeb cymhelliad yn eu chwarae wrth asesu'r “niwed i fudd y cyhoedd”. Rydym o'r farn fod yr anawsterau a brofir ar hyn o bryd gyda'r diffiniad o “ddifrifoldeb” yn y drosedd yn annhebygol o gael eu datrys gan y llysoedd heb adolygiad mwy sylfaenol o'r elfen hon o'r drosedd.

<sup>29</sup> Gweler *Chapman* [2015] EWCA Crim 539, [2015] 2 Cr App R 10 ar [36].

<sup>30</sup> *AGs Reference (No 140 of 2004)* [2004] EWCA Crim 3525. *Chapman* [2015] EWCA Crim 539 ar [36].

<sup>31</sup> Gweler para 1.34 uchod.

<sup>32</sup> *Dytham* [1979] QB 722, [1979] 3 WLR 467; *AG's Reference (No 140 of 2004)* [2004] EWCA Crim 3525 at [56]; *DL* [2011] EWCA Crim 1259, [2011] 2 Cr App R 14.

<sup>33</sup> Fel y trafodwyd uchod ymddengys fod eithriad o hyd, yn dilyn achos *W* [2010] EWCA Crim 372, [2010] QB 787, lle gallai'r camymddwyn o bosibl olygu'n ogystal drosedd seiliedig ar anonestrwydd megis lladrad neu dwyll. Yn yr achosion hyn mae anonestrwydd yn un o ofynion y drosedd.

<sup>34</sup> *Chapman* ar [18], wrth gyfeirio at ddyfarniad Syr Anthony Mason yn *Shum Kwok Sher* [2002] 5 HKFAR 381.

- 1.44 Mae dwy broblem gyda hyn. Yn gyntaf, gofynnir i'r rheithgor wneud asesiad cylchol a yw tor-dyletswydd unigolyn yn ddigon difrifol i fod yn droseddol (mae'n droseddol oherwydd ei fod yn ddifrifol, mae'n ddifrifol oherwydd ei fod yn droseddol). Yn ail, gellir gwneud hyn yn waeth gan y ffaith y gofynnir i'r rheithgor wneud hynny heb unrhyw arwydd clir o beth *allai* arwain at ymddygiad difrifol, ac felly, troseddol.<sup>35</sup>
- 1.45 Mae'r diffyg canllawiau cynhwysfawr ynghylch beth sy'n gwneud camymddygiad yn "ddifrifol" yn achosi anawsterau i ymchwilyr, erlynwyr, barnwyr a rheithgorau.<sup>36</sup> Mae'n neilltuol o anodd o safbwynt gwneud penderfyniadau ynghylch lle dylid gosod y ffin rhwng gweithdrefnau disgyblu ac achosion troseddol.

### **Diffyg eglurder ynghylch gweithredu "esgus neu gyfiawnhad rhesymol"**

- 1.46 Mae'n aneglur a yw'r elfen "heb esgus neu gyfiawnhad rhesymol" yn darparu gwir amddiffyniadau i gyhuddiad o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus neu nad yw'n gwneud dim ond caniatáu ar gyfer gwadu elfen arall o'r drosedd.
- 1.47 Gellid dadlau, yng nghyd-destun camymddwyn mewn swydd gyhoeddus, y byddai bodolaeth ffeithiau a fyddai'n ffurfio amddiffyniad o'r fath yn rhwystro profi elfennau'r drosedd, felly ni fyddai angen unrhyw amddiffyniad. Yn benodol, lle bo gan ddiffynnydd esgus neu gyfiawnhad rhesymol:
- (1) efallai nad yw'r ymddygiad y cwynir amdano yn ddigon difrifol i ffurfio'r drosedd; neu
  - (2) efallai nad yw'r diffynnydd wedi gweithredu'n fwriadol.
- 1.48 Dengys y gyfraith achosion mai anaml y caiff elfen "heb esgus neu gyfiawnhad rhesymol" y drosedd ei gwahanu oddi wrth elfennau eraill y drosedd yn y ffordd y cafodd ei gwahanu gan y llys yng *Nghyfarwyddyd y Twrnai Cyffredinol*.<sup>37</sup> Fodd bynnag, dadleuwyd y dylai'r gyfraith ar gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus nodi'r amddiffyniadau i gyhuddiad o'r fath, yn enwedig amddiffyniad o "weithredu er budd y cyhoedd". Prif gefnogwyr y ddadl hon yw cynrychiolwyr y wasg.<sup>38</sup> Mae'r wasg o'r farn fod yr erlyniadau troseddol diweddar o newyddiadurwyr am

<sup>35</sup> Mae'r mater hwn yn debyg i'r un a wynebwr mewn achosion sy'n ymwneud â'r drosedd dynladdiad trwy esgeulustod dybryd. Fodd bynnag, mae i'r mater hwn y potensial o fod yn fwy anodd yn y drosedd o gamymddwyn gan fod gan y rheithgor arwydd o ddifrifoldeb mewn achosion o ddynladdiad, yn yr ystyr o ganlyniad difrifol (marwolaeth) sydd o ganlyniad i'r drosedd ac sy'n un o ofynion y drosedd. Mewn camymddwyn mewn swydd gyhoeddus, nid oes unrhyw ofyniad o ganlyniad.

<sup>36</sup> Dangoswyd hyn yn glir gan apêl *Chapman* a'r adolygiad dilynol o erlyniadau Operation Eleveden gan Wasanaeth Eryl y Goron. Arweiniodd yr adolygiad at ollwng yr achosion yn erbyn naw o ddiffinyddion.

<sup>37</sup> *DL* [2011] EWCA Crim 1259, [2011] 2 Cr App R 14 ar [12].

<sup>38</sup> Tystiolaeth a roddwyd gan y Newspaper Society i Gydbwyllgor y Bil Drafft Llygredd: *Report of the Committee on the Draft Corruption Bill* (2003) Tŷ'r Arglwyddi 157, Tŷ'r Cyffredin 705 at ev 138. Yn fwy diweddar gweler: <http://www.theguardian.com/law/2015/apr/18/dont-prosecute-journalists-who-pay-for-public-interest-leaks-says-ex-dpp> (gwelwyd ddiwethaf 14 Rhagfyr 2015); Ymchwiliad Leveson, *An Inquiry into the Culture, Practices and Ethics of the Press* (Tachwedd 2012) rhan J ar [6.2].

gynorthwyo, neu gynllwynio i gyflawni, camymddygiad mewn swydd gyhoeddus yn torri ar ryddid y wasg a'r hawl i ryddid mynegiant o dan erthygl 10 o Gonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop.<sup>39</sup>

- 1.49 Amcan nodi'r amddiffyniadau sydd ar gael i gyhuddiad o gamymddwyn fyddai galluogi'r llysoedd i ystyried yn gliriach ffactorau sy'n pwysu yn erbyn collfarnu. Gallai'r rhain gynnwys y budd i'r cyhoedd sy'n codi o natur y camymddygiad, cymhellion y peraon sy'n ei ddatgelu a'r niwed yr oedd yn debygol o'i achosi.

### **MANNAU O ORGYFFWRDD GYDA DULLIAU ERAILL O ATEBOLRWYDD**

- 1.50 Mae'r drosedd o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus yn gorgyffwrdd â nifer o ddulliau eraill o ddal swyddogion cyhoeddus i gyfrif, gan gynnwys:

- (1) troseddau troseddol eraill; a
- (2) gweithdrefnau disgyblu.<sup>40</sup>

### **Troseddau troseddol eraill**

- 1.51 Bydd y ffeithiau ar erlyniad am gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus yn aml iawn yn cynnwys o leiaf un drosedd arall.<sup>41</sup> Enghraifft o hyn yw deiliad swydd gyhoeddus sy'n derbyn taliad i ddylanwadu ar benderfyniad y mae'n rhaid iddo ef neu hi ei wneud, a all fod yn euog o lwgrwobrwyo ac o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus.<sup>42</sup> Gall y rheswm dros ddewis cyhuddiad o gamymddwyn neu drosedd arall neu un sy'n gysylltiedig amrywio gan ddibynnu ar nifer o ffactorau.
- 1.52 Mewn llawer o achosion gall fod yn fwy addas cyhuddo rhywun o drosedd benodol. Gall hyn fod oherwydd bod y drosedd benodol yn disgrifio'r drygioni yn fwy cywir a/neu oherwydd bod manteision gweithdrefnol a/neu tystiolaethol wrth wneud hynny. Mewn achosion o ddatgelu gwybodaeth sensitif iawn neu bersonol, er enghraifft, gallai trosedd o dan Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1989 neu Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990 gael ei ffafrio fel cyhuddiad yn hytrach na chamymddwyn mewn swydd gyhoeddus.
- 1.53 Mae'r feirniadaeth o droseddau eang dan gyfraith gwlad yn aml yn seiliedig ar y syniad fod troseddau o'r fath yn gynhenid ansicr ac yn brin o ffiniau clir pryd y dylai'r gyfraith mewn gwirionedd fod yn "glir, manwl gywir, wedi ei diffinio'n ddigonol ac yn seiliedig ar egwyddor resymegol weladwy".<sup>43</sup>

<sup>39</sup> Gweler Atodiad C am drafodaeth bellach o'r oblygiadau o dan Gonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop.

<sup>40</sup> Mae'n amlwg yn ogystal fod gorgyffwrdd rhwng camymddwyn troseddol a'r camwedd (gweithredu sifil) o gamweithredu mewn swydd gyhoeddus; gweler Atodiad B o'r Papur Ymgynghori.

<sup>41</sup> Gweler trafodaeth bellach yn Atodiad D o'r Papur Ymgynghori.

<sup>42</sup> Er enghraifft, gweler *Patel* (Hydref 2011) (nas adroddwyd), a oedd yn ymwneud â chlerc llys a oedd yn derbyn llwgrwobrwyon gan fodurwyr yr oedd disgwyl iddynt dderbyn pwyntiau ar eu trwyddedau gyrru.

<sup>43</sup> *Rimington* [2005] Tŷ'r Arglwyddi 63, [2006] 1 AC 459 ar [36] gan yr Arglwydd Bingham.

- 1.54 Fodd bynnag, nid oes unrhyw reol bendant fod y defnydd o drosedd eang cyfraith gwlad yn troseddu yn erbyn sicrwydd cyfreithiol.<sup>44</sup> Rhaid bod rheswm da dros ddefnyddio trosedd ehangach cyfraith gwlad yn hytrach na naill ai trosedd gulach cyfraith gwlad (er enghraifft, gwyrddroi cwrs cyfiawnder) neu drosedd statudol<sup>45</sup> a rhaid i'r drosedd gael ei gweithredu mewn ffordd nad yw'n annisgwyl ac felly'n ôl-weithredol ei heffaith.<sup>46</sup> Gall hyn ddigwydd pan mai'r dewisiadau eraill yw troseddau cul ac arbenigol sy'n gosod mwy o anawsterau profi, a/neu lle bo difrifoldeb y drygioni yn haeddu dedfryd na ellir ei chyrraedd trwy'r troseddau eraill, a/neu gall cyhuddiad sengl o gamymddwyn ddal natur neu rychwant yr yr ymddygiad yn haws.
- 1.55 Gall diffyg eglurder cyfraith bresennol camymddwyn ei gwneud yn fwy anodd i erlynwyr benderfynu ymlaen llaw pwy allai fod yn agored i erlyniad. Mae i hyn y risg o wneud penderfyniadau anghyson ynghylch erlyn neu beidio.
- 1.56 Mae rhai rhanddeiliaid wedi mynegi'r farn fod, fel mater o egwyddor, collfarn am gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus yn disgrifio ffurf bendant a gwahanol o ddrygioni.
- 1.57 Gellir dadlau bod drygioni pendant yn cael ei gyflawni pan fod deiliad swydd gyhoeddus yn cyflawni tor-dyletswydd difrifol o ddyletswydd benderfynodol. Gellir dadlau hefyd fod drygioni o'r fath yn haeddu cael ei droseddoli ar wahân i drosedd gyffredinol megis llwgrwobrwyo neu dwyll.

### **Adran 26 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015**

- 1.58 Mae adran 26 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015<sup>47</sup> yn darparu trosedd newydd sy'n gorgyffwrdd â chamymddwyn mewn swydd gyhoeddus: gweithredu pwerau a breintiau'r heddlu mewn modd llwgr neu fodd amhriodol arall.
- 1.59 Dros y blynyddoedd diwethaf mae llygredd yr heddlu wedi bod yn fater o bryder i'r llywodraeth a'r cyhoedd. Mae trosedd adran 26 wedi'i chynllunio ar gyfer llenwi bylchau a allai fod rhwng troseddau statudol a oedd yn bod eisoes. Fodd bynnag, wrth ddadansoddi'r ddarpariaeth, barnwn fod erlyniadau o dan adran 26 yn debygol o ddioddef oddi wrth gymaint o anawsterau yn ymarferol ag erlyniadau am gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus. Yn ein barn ni, mae nifer o elfennau o'r drosedd newydd yr un mor amwys ag elfennau camymddwyn mewn swydd gyhoeddus.

### **Materion disgyblu**

- 1.60 Mae hefyd orgyffwrdd rhwng camymddwyn troseddol a chamymddwyn mewn cyd-destun cyflogaeth neu ddisgyblu. Bydd bron bob deiliad swydd gyhoeddus yn destun codau neu reoliadau sy'n llywodraethu ymddygiad. Lle bo honiad bod

<sup>44</sup> *Rimmington* [2005] Tŷ'r Arglwyddi 63, [2006] 1 AC 459 ar [52].

<sup>45</sup> *Rimmington* [2005] Tŷ'r Arglwyddi 63, [2006] 1 AC 459 ar [30].

<sup>46</sup> *SW and CR v United Kingdom* (1995) 21 EHRR 363 (Rhifau 20166/92 a 20190/92), ar [34] a [36].

<sup>47</sup> Daeth Adran 26 i rym ar 13 Ebrill 2015, OS 2015 Rhif 778, atod 1.

deiliaid swydd gyhoeddus wedi camymddwyn, mae deiliaid y swydd honno'n debygol o fod yn destun gweithdrefnau disgyblu mewnol.

- 1.61 Mae cwestiynau'n codi ynghylch lle dylid gosod y ffin rhwng camymddwyn troseddol a mathau eraill, llai, o gamymddwyn. Dylid neilltuo erlyn troseddol ar gyfer y mathau mwyaf difrifol o ddrygioni oherwydd collfarn yw'r gosb gyfreithiol fwyaf llym y gellir ei gorfodi.
- 1.62 Mae, fodd bynnag, anawsterau wrth osod ffin bendant. Dengys ein hymchwil y gall y diffyg diffiniad ynghylch elfennau unigol y drosedd o gamymddwyn ddwysáu'r anawsterau hyn. Cymhlethir hyn ymhellach gan y ffaith fod deiliaid gwahanol swyddi cyhoeddus yn destun gwahanol fathau o gyfundrefnau disgyblu.

### **YMDYGIAD A ERLYNIR FEL CAMYMDDWYN MEWN SWYDD GYHOEDDUS**

- 1.63 Rydym wedi adnabod rhai mathau o ymddygiad a gaiff eu herlyn ar hyn o bryd fel camymddwyn mewn swydd gyhoeddus oherwydd nad oes unrhyw drosedd arall ar gael. Rydym hefyd wedi adnabod amgylchiadau lle mae troseddau eraill ar gael sy'n troseddol'r un mathau neu fathau tebyg o ymddygiad â chamymddwyn mewn swydd gyhoeddus, ond lle gellir ystyried camymddwyn yn drosedd fwy addas ar gyfer erlyn.
- 1.64 Wrth archwilio'r achosion na ellir ond eu herlyn fel camymddwyn, rydym o'r farn nad oes ond nifer bach o achosion o'r fath. Gellir gosod y rhain ynghyd mewn pum categori nad ydynt yn rhai holl-gynhwysol:
- (1) Deiliaid swyddi cyhoeddus sy'n manteisio ar eu safleoedd i hwyluso perthynas rywiol.
  - (2) Deiliaid swyddi cyhoeddus sy'n fwriadol yn defnyddio eu safleoedd i hwyluso perthynas bersonol a all greu gwrthdrawiad gyda gweithredu priodol swyddogaethau eu safle.
  - (3) Deiliaid swyddi cyhoeddus sy'n gweithredu mewn modd rhagfarnllyd neu o dan wrthdrawiad buddiannau.
  - (4) Esgeuluso dyletswydd gan ddeiliaid swyddi cyhoeddus sy'n arwain at ganlyniadau difrifol, neu risg o ganlyniadau difrifol yn codi.
  - (5) Deiliaid swyddi cyhoeddus sy'n methu diogelu'n iawn wybodaeth sy'n dod i'w meddiant oherwydd rhinwedd eu safle.
- 1.65 Gall rhai ddadlau bod yr enghreifftiau hyn o gamymddwyn, na fyddai fel arall yn cael eu dal gan weddill y gyfraith droseddol, er hynny yn haeddu cael eu troseddoli. Gallai hyn fod naill ai yn gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus neu'n drosedd a grewyd yn benodol. Er mwyn eglurder, nid ydym o anghenrheidrwydd yn cytuno bod hyn yn ymddygiad y dylid ei droseddoli. Ein nod yw tynnu sylw at y ffaith y byddai diddymu camymddwyn mewn swydd gyhoeddus, heb ddim byd i gymryd ei le, yn cael yr effaith o ddad-droseddoli rhai mathau o ymddygiad a all fod yn destun erlyniad ar hyn o bryd.

- 1.66 Ystyriwn hefyd y mathau niferus o ymddygiad a erlynir fel camymddwyn mewn swydd gyhoeddus ond y gellid eu herlyn o dan drosedd arall. Mewn achosion o'r fath, gall dewis cyhuddiad o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus fod am nifer o resymau o ddoethineb ymarferol wrth erlyn. Rhown bedair enghraifft:
- (1) Deiliaid swyddi cyhoeddus sy'n ymelwa ar eu safle i hyrwyddo enillion ariannol.. Gellid erlyn hyn hefyd o dan adran 4 o Ddeddf Twyll 2006, er enghraifft.
  - (2) Taliadau a dderbyniwyd gan unigolyn cyn dod yn ddeiliad swydd gyhoeddus lle byddai'r taliad yn achosi gwrthdrawiad buddiannau â swyddogaethau deiliad y swydd gyhoeddus. Gellid erlyn hyn hefyd o dan adran 2(2) o Ddeddf Llwgwrwbrwyo 2010, er enghraifft.
  - (3) Ymyrryd â thystiolaeth gan ddeiliaid swyddi cyhoeddus. Gellid erlyn hyn hefyd fel gwyrddroi cwrs cyfiawnder, er enghraifft.
  - (4) Cludo nwyddau nas gwaherddir, ond a all fod yn niweidiol neu beri aflonyddwch, i garchar gan ddeiliaid swyddi cyhoeddus. Gellid erlyn hyn hefyd fel cynllwyn i dwyllo, er enghraifft.
  - (5) Deiliaid swyddi cyhoeddus sy'n methu diogelu'n iawn wybodaeth sy'n dod i'w meddiant oherwydd rhinwedd eu safle. Gellid erlyn hyn o dan Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990, er enghraifft.

## **CWESTIYNAU I YMGYNGOREION**

### **Y GYFRAITH AR HYN O BRYD**

#### **Cwestiwn 1**

- 1.67 A all ymgynghoreion ddarparu rhagor o enghreifftiau o'r problemau dehongli sy'n gysylltiedig ag elfennau o'r trosedd presennol o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus?

### **Y TROSEDD NEWYDD O ARFER PWERAU NEU FREINTIAU'R HEDDLU MEWN FFYRDD LLYGREDIG NEU MEWN FFYRDD AMHRIODOL ERAILL**

#### **Cwestiwn 2**

- 1.68 A all ymgynghoreion ddarparu rhagor o enghreifftiau o'r problemau sy'n gysylltiedig â'r trosedd o "arfer pwerau a breintiau'r heddlu mewn ffyrdd llygredig neu mewn ffyrdd amhriodol eraill" o dan adran 26 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015?

### **CRYNODEB O'R PROBLEMAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â'R TROSEDD A CHASGLIADAU**

#### **Cwestiwn 3**

- 1.69 A all ymgynghoreion ddarparu rhagor o enghreifftiau o'r problemau sy'n gysylltiedig â'r diffiniad presennol o "swydd gyhoeddus"?

#### **Cwestiwn 4**

- 1.70 A oes gan ymgynghoreion unrhyw farn ynghylch a oes gan y gofyniad bod deiliaid swydd gyhoeddus yn “gweithredu fel hynny” (“acting as such”) pan oedd yn camymddwyn unrhyw arwyddocâd ymarferol o fewn yr ystyr presennol o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus?

#### **Cwestiwn 5**

- 1.71 A all ymgynghoreion ddarparu rhagor o enghreifftiau o broblemau sy'n codi oherwydd diffyg eglurder ynghylch pa fathau o dordyletswydd sy'n ddigon i sefydlu'r trosedd o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus?

#### **Cwestiwn 6**

- 1.72 A oes gan ymgynghoreion unrhyw farn ynghylch a yw'r diffyg eglurder ynghylch beth all fod yn “fradychu ymddiriedaeth y cyhoedd” (abuse of the public's trust) yn achosi problemau ar gyfer darparu trothwy “difrifoldeb” posibl ar gyfer y trosedd?

#### **Cwestiwn 7**

- 1.73 A all ymgynghoreion ddarparu rhagor o enghreifftiau o'r problemau sy'n codi o fodolaeth elfennau bai amrywiol ar gyfer gwahanol fathau o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus?

#### **Cwestiwn 8**

- 1.74 A all ymgynghoreion ddarparu rhagor o enghreifftiau o broblemau sy'n codi oherwydd ddiffyg eglurder ynghylch gweithredu elfen “heb gyfiawnhad nac esgus rhesymol” y trosedd?

### **YN GORGYFFWRDD Â MATHAU ERAILL O ATEBOLRWYDD CYFREITHIOL**

#### **Cwestiwn 9**

- 1.75 Rydym yn nodi tri rheswm ymarferol posibl a all fodoli ar gyfer erlyn yng nghyswllt camymddwyn mewn swydd gyhoeddus lle mae troseddau amgen ar gael.

- (1) Mae'r troseddau amgen yn gyfyngedig ac yn arbenigol neu yn droseddau lle mae profi trosedd yn fwy anodd.
- (2) Mae'r opsiynau ar gyfer dedfrydu yng nghyswllt cyhuddiadau posibl eraill yn fwy cyfyngedig.
- (3) Efallai y bydd un cyhuddiad o gamymddwyn yn haws ar gyfer dal natur neu ystod yr ymddygiad.

A all ymgynghoreion ddarparu rhagor o enghreifftiau o resymau posibl dros erlyn camymddwyn mewn swydd gyhoeddus lle mae troseddau amgen ar gael?

#### **Cwestiwn 10**

- 1.76 A oes gan ymgynghoreion unrhyw farn ynghylch a yw'r trosedd o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus yn adlewyrchu camymddwyn penodol?



### **Cwestiwn 11**

- 1.77 A oes gan ymgynghoreion unrhyw farn ynghylch a yw'r trosedd o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus yn cyflawni rôl bwysig o safbwynt labelu teg?

## **YMDYGIAD A ERLYNIR FEL CAMYMDDWYN MEWN SWYDD GYHOEDDUS**

### **Cwestiwn 12**

- 1.78 Rydym wedi nodi pum math o ymddygiad na ellir ond eu herlyn fel camymddwyn mewn swydd gyhoeddus dan y gyfraith bresennol. Sef:

- (1) Deiliaid swydd gyhoeddus yn manteisio ar eu swydd i hwyluso perthynas rywiol.
- (2) Deiliaid swydd gyhoeddus sy'n defnyddio'u swydd i hwyluso perthynas bersonol a all greu gwrthdaro mewn buddiannau gyda swyddogaethau eu swydd.
- (3) Deiliaid swydd gyhoeddus sy'n gweithredu mewn ffordd unochrog neu ragfarnllyd, neu lle cafwyd gwrthdaro mewn buddiannau.
- (4) Deiliaid swydd gyhoeddus yn esgeuluso dyletswydd sy'n arwain at ganlyniadau difrifol, neu berygl y bydd canlyniadau difrifol yn codi.
- (5) Deiliaid swydd gyhoeddus nad ydynt yn diogelu'n briodol wybodaeth a ddaw i'w meddiant yn rhinwedd eu swyddi.

A all ymgynghoreion ddarparu rhagor o enghreifftiau o'r mathau o ymddygiad na ellir ar hyn o bryd ond eu herlyn fel camymddwyn mewn swydd gyhoeddus, lle nad oes trosedd amgen ar gael?

### **CASGLIAD**

- 1.79 Mae'r crynodeb hwn wedi tynnu sylw at y nifer o feysydd o ansicrwydd ynghylch y drosedd o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus. Nid yw'n bosibl mewn crynodeb o'r hyd hwn i wneud cyfiawnder â chymhlethdodau niferus y gyfraith. Anogir rhanddeiliaid felly i gyfeirio at y Papur Materion llawn sydd ar gael ar ein gwefan. Rydym yn croesawu adborth ar unrhyw broblemau pellach neu fylchau posibl yn y gyfraith nad ydym wedi rhoi sylw iddynt, fel y gallwn ystyried y rhain wrth ffurfio ein cynigion amodol am ddiwygio ym Mhapur Materion 2. Rydym yn ceisio ymatebion i'n cwestiynau fel y'u gosodir yn Materion Papur 1 erbyn 20 Mawrth 2016.

### **Gellir anfon sylwadau:**

**Trwy e-bost:** misconduct@lawcommission.gsi.gov.uk

**Trwy'r post:** Justine Davidge, Criminal Law Team, Law Commission of England & Wales, 1st Floor Tower, 52 Queen Anne's Gate, London, SW1H 9AG.

**Dros y ffôn:** 020 3334 3462

**Trwy ffacs:** 020 3334 0201

Os ydych chi'n anfon eich sylwadau drwy'r post, byddai o help pe gallech, pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, eu hanfon hefyd yn electronig (er enghraifft, ar CD neu drwy e-bost i'r cyfeiriad uchod, mewn unrhyw fformat cyffredin ei ddefnydd).